


2019

Canllaw Hawdd ei Ddarllen ar
bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol



Cynnwys

Beth yw pleidleisio?

1

Mae'r adran yma yn esbonio beth yw pleidleisio, pam mae'n bwysig a phwy sy'n gallu pleidleisio.

Cofrestru i bleidleisio

2

Mae'r adran yma yn esbonio sut i gofrestru i bleidleisio.

Pleidleisio drwy'r post

3

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais am bleidlais bost.

Pleidleisio drwy ddirprwy

4

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar ran rhywun arall).

Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

5

Mae'r adran yma yn esbonio sut i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

Dyddiadau pwysig

6

Mae'r adran yma yn nodi'r dyddiadau pwysig sydd angen i chi eu cofio ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol yn 2019.

Termau sy'n cael eu defnyddio yn y canllaw yma

7

Mae'r adran yma yn esbonio rhai geiriau defnyddiol sy'n cael eu defnyddio yn y canllaw yma, fel gorsaf bleidleisio a Phapur Pleidleisio.

1

Beth yw pleidleisio?

Mae'r adran yma yn esbonio beth yw pleidleisio a sut mae'n gweithio.

Bydd yr adran yma yn esbonio beth yw pleidleisio a pham mae'n bwysig.



Mae gan bobl sydd ag anabledd dysgu yr un hawl i bleidleisio â phawb arall. Peidiwch â gadael i neb ddweud fel arall wrthydd chi.

Mae'n bwysig cofio bod angen i chi gofrestru er mwyn pleidleisio.



Aelodau Seneddol yw enw'r bobl sy'n rhedeg y wlad.

Maen nhw'n gwneud penderfyniadau pwysig sy'n gallu effeithio ar fywydau pobl.

Er enghraifft, mae'r Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau pwysig sy'n gallu newid:

- Cyfreithiau troseddau casineb
- Sut mae pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael cymorth
- Sut mae pobl sydd ag anabledd dysgu yn cael gofal iechyd.



Mae gan Aelodau Seneddol gwahanol syniadau gwahanol am y ffordd orau o redeg y wlad.



Mae Aelodau Seneddol yn cael eu hethol. Mae hyn yn golygu bod pobl yn gallu penderfynu pa Aelodau Seneddol maen nhw am eu gweld yn rhedeg y wlad.

Mae pobl yn galw hyn yn etholiad cyffredinol.

Pleidleisio yw un o'r ffyrdd gorau o wneud yn siŵr bod llais pobl yn cael ei glywed gan y bobl sydd mewn pŵer. Mae llawer o bleidiau gwleidyddol. Mae pob plaid yn cynnwys gwleidyddion sy'n cytuno ar y ffordd y dylai'r wlad gael ei rhedeg.

Fel arfer, mae gwleidyddion yn aelodau o blaid wleidyddol. Mae llawer o bleidiau gwleidyddol.

Gallwch chi hefyd bleidleisio dros ymgeiswyr nad ydyn nhw'n aelod o blaid wleidyddol. Maen nhw'n sefyll fel ymgeiswyr annibynnol.



Mewn etholiadau, mae gan bobl sydd ag anabledd dysgu yr un hawl i bleidleisio â phawb arall.



Dylai pobl sydd ag anabledd dysgu bleidleisio er mwyn gallu lleisio eu barn ar y pethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Dydd Iau

12 Rhagfyr
Diwrnod yr
Etholiad!

Bydd Etholiad Cyffredinol yn digwydd yn y DU
ddydd Iau 12 Rhagfyr 2019.

Yn yr etholiad hwn, byddwch chi'n gallu
pleidleisio dros y bobl rydych chi am iddyn nhw
wneud rhai o'r penderfyniadau mwyaf pwysig yn
y wlad.



Bydd pobl yn pleidleisio i ddewis eu Haelod
Seneddol lleol.

Mae Aelodau Seneddol yn gwneud
penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar y wlad
i gyd. Mae'r rhan fwyaf o Aelodau Seneddol yn
aelodau o blaid wleidyddol.

Fel arfer, y blaid sydd â'r nifer mwyaf o Aelodau
Seneddol sy'n ffurfio'r Llywodraeth.

Wedyn, bydd arweinydd y blaid fuddugol yn dod
yn Brif Weinidog.

Pwy sy'n gallu pleidleisio mewn Etholiadau Cyffredinol?

Er mwyn pleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol, mae'n rhaid i chi fod:

- yn 18 oed neu drosodd
- yn ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig, neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad
- yn byw yn y DU

Mae rhagor o wybodaeth am wledydd y Gymanwlad ar gael ar wefan Comisiwn Etholiadol sy'n rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr>

2

Cofrestru i bleidleisio

Mae'r adran yma yn esbonio sut i gofrestru i bleidleisio



Mae'r adran yma yn esbonio sut i gofrestru i bleidleisio.

Mae'n bwysig eich bod chi'n cofrestru i bleidleisio. Os nad ydych chi wedi cofrestru, fyddwch chi ddim yn gallu pleidleisio mewn etholiad.

Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap:

www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting


Gallwch chi gofrestru i bleidleisio ar-lein yn **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

Mae canllaw hawdd ei ddarllen ar gael ar y wefan i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen.



Ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol mae angen i chi gofrestru erbyn **26 Tachwedd**.

Mae angen i chi gofrestru i bleidleisio bob tro rydych chi'n symud tŷ.



Mae tair ffordd o bleidleisio – dewiswch yr un sydd fwyaf addas i chi.

Mewn gorsaf bleidleisio - Bydd cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon atoch chi cyn etholiad. Bydd eich cerdyn pleidleisio yn dweud wrthydd chi ble mae eich gorsaf bleidleisio. Gallwch chi bleidleisio eich hun yn eich gorsaf bleidleisio leol. Yn aml, mae eglwysi, canolfannau cymunedol ac ysgolion yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio ond gallan nhw fod mewn pob math o leodd gwahanol.

Drwy'r post - Os ydych chi am bleidleisio drwy'r post bydd angen i chi gysylltu â'ch tîm gwasanaethau etholiadol lleol a byddan nhw'n anfon ffurflen atoch chi. Llenwch y ffurflen gais am bleidlais bost ac anfonwch hi i'ch tîm gwasanaethau etholiadol lleol. Cyn etholiadau, byddwch chi'n cael papur pleidleisio yn y post.

Drwy ddirprwy - Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n dewis rhywun arall i bleidleisio drosoch chi. Bydd angen i chi lenwi ffurflen newydd i ddewis pwy fydd yn pleidleisio drosoch chi. Gall y person yma fynd i orsaf bleidleisio neu wneud cais am bleidlais bost er mwyn pleidleisio ar eich rhan chi.

Angen help? Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap:
www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr etholiad, gallwch ffonio llinell gymorth Mencap ar **0207 696 6009**.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: campaigns@mencap.org.uk
ffôn: **0207 696 6009**

3

Pleidleisio drwy'r post


Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais
am bleidlais bost.



Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais i bleidleisio drwy'r post

Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post yn lle mynd i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, bydd angen i chi gysylltu â'r tîm gwasanaethau etholiadol lleol yn eich awdurdod lleol i ddweud wrthyn nhw eich bod am bleidleisio drwy'r post.

Byddwch chi'n cael ffurflen drwy'r post. Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen yma a'i phostio'n ôl i'r awdurdod lleol.



Os nad ydych chi'n gwybod sut i gysylltu â'ch tîm gwasanaethau etholiadol lleol, gallwch chi deipio eich cod post i mewn i wefan y Comisiwn Etholiadol er mwyn cael enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person y mae angen i chi siarad ag ef yn eich cyngor.



<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr>

Os ydych chi'n byw ym Mhrydain Fawr, bydd angen i chi gofrestru erbyn **5pm ar 26 Tachwedd**.


Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i chi gofrestru erbyn **5pm ar 21 Tachwedd**.

Bydd angen i chi gysylltu â Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon.

Gallwch chi gysylltu â nhw a chael ffurflen gais yn **www.eoni.org.uk/home**

Gallwch chi gysylltu ag EONI hefyd ar **0800 4320 712**.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
ffôn: **0207 696 6009**



Llenwi'r ffurflen gais ar gyfer pleidleisio drwy'r post

Pan fyddwch chi'n cael eich ffurflen gais drwy'r post, bydd angen i chi ei llenwi.

Amdanoch chi

Yn gyntaf, llenwch yr adran Amdanoch chi.

Ysgrifennwch eich enw llawn.



Mae blychau ar gyfer rhoi eich rhif ffôn neu eich cyfeiriad e-bost ond nid oes angen i chi lenwi'r rhain os nad ydych chi am wneud hynny. Mae'r wybodaeth yma yn helpu'r tîm gwasanaethau etholiadol i gysylltu â chi os bydd angen iddyn nhw wneud hynny.

Cyfeiriad

Nesaf, llenwch yr adran Cyfeiriad. Bydd angen i chi ysgrifennu'r cyfeiriad lle rydych chi'n byw.

Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy'r post?


Llenwch yr adran 'Am faint yr hoffech chi gael pleidlais drwy'r post?'

Bydd angen i chi nodi am faint hoffech chi bleidleisio drwy'r post.

Mae hyn yn golygu y bydd pleidlais bost yn cael ei hanfon atoch chi ar gyfer pob etholiad oni bai eich bod yn dweud wrth y tîm gwasanaethau etholiadol nad ydych chi am bleidleisio drwy'r post.



Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post mewn un etholiad yn unig, rhowch ddyddiad yr etholiad yna. Neu gallwch chi ddewis cyfnod o amser ar gyfer pleidleisio drwy'r post. Er enghraifft, rhwng 01/12/2019 a 01/12/2024.



Cyfeiriad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post

Nesaf, llenwch yr adran 'Cyfeiriad ar gyfer papur pleidleisio'.

Ysgrifennwch y cyfeiriad ar gyfer anfon eich papur pleidleisio drwy'r post iddo. Eich cyfeiriad cartref yw hwn fel arfer ond os byddwch chi'n mynd i ffwrdd, er enghraifft ar wyliau, rhowch y cyfeiriad lle byddwch chi'n aros.



Datganiad

Yn olaf, llenwch 'Eich dyddiad geni a datganiad'. Ysgrifennwch eich dyddiad geni a rhowch eich llofnod yn y blwch. Os nad ydych chi'n gallu llofnodi, cysylltwch â'ch tîm gwasanaethau etholiadol lleol a byddan nhw'n gallu eich helpu.

Yna, postiwch eich ffurflen i'r cyfeiriad sy'n cael ei nodi.

Os nad ydych chi'n gallu postio'r ffurflen eich hun, rhowch hi i rywun rydych chi'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo i'w phostio ar eich rhan, neu ffoniwch eich tîm gwasanaethau etholiadol lleol i weld a allan nhw ei chasglu gennych chi.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ffurflen gais yn wahanol. Efallai hoffech chi ofyn i rywun eich helpu chi i lenwi'r ffurflen.

Beth sy'n digwydd nesaf

Cyn yr etholiad, byddwch chi'n cael pecyn pleidleisio drwy'r post a phapur pleidleisio sy'n dangos pwy rydych chi'n gallu pleidleisio drosto.

Bydd y pecyn pleidleisio drwy'r post yn dweud wrthyh chi ble i bostio'r papur.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch chi hefyd fynd â'ch pecyn pleidleisio drwy'r post i'ch gorsaf bleidleisio leol ar ddiwrnod yr etholiad.

Yng Ngogledd Iwerddon, gallwch chi fynd â'ch papur pleidleisio drwy'r post i Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon ar ddiwrnod yr etholiad os nad ydych chi wedi'i anfon.

Y cyfeiriad yw
Electoral Office for Northern Ireland
St Anne's House, 15 Church Street
Belfast BT1 1ER

Gallwch chi ddim mynd â'ch pecyn pleidleisio drwy'r post i'ch gorsaf bleidleisio yng Ngogledd Iwerddon.

Angen help?

Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy'r post ar gael ar wefan Mencap:

www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting

Os byddwch chi'n cael unrhyw anhawster neu os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, gallwch ffonio tîm Mencap ar **0207 696 6009**.



Gwybodaeth gyswllt
e-bost: campaigns@mencap.org.uk
ffôn: 0207 696 6009




Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae'r adran yma yn esbonio sut i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar ran rhywun arall)

Mae'r canllaw yma yn esbonio sut i wneud cais i **bleidleisio drwy ddirprwy**.

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n dewis rhywun i bleidleisio drosoch chi. Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap:

www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting



Os ydych chi'n byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, ffoniwch eich tîm gwasanaethau etholiadol lleol i ddweud eich bod chi am bleidleisio drwy ddirprwy.

Bydd ffurflen 'Cais i bleidleisio drwy ddirprwy oherwydd anabledd' yn cael ei hanfon atoch chi. Bydd y ffurflen yma yn debyg iawn i'r ffurflen gofrestru etholiadol. Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon mae'r ffurflen gais yma ar gael yn **<http://www.eoni.org.uk/>**

Vote/Voting-by-post-or-proxy.

Gallwch chi gysylltu â Swyddfa Etholiadol Gogledd Iwerddon hefyd ar **0800 4320 712**

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ffurflen gais yn wahanol. Efallai hoffech chi ofyn i rywun eich helpu chi i lenwi'r ffurflen.

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy ym Mhrydain Fawr yw **5pm ar 4 Rhagfyr**.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy yw **5pm ar 21 Tachwedd**.

Rhagfyr

4

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: **campaigns@mencap.org.uk**
ffôn: **0207 696 6009**



Nawr llenwch yr adrannau canlynol

Amdanoch chi

Yn gyntaf, llenwch yr adran 'Amdanoch chi'. Nid oes angen i chi roi eich rhif ffôn na'ch cyfeiriad e-bost i ni os nad ydych chi am wneud hynny.

Bydd angen i chi roi'r cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio.

Eich dirprwy

Nawr, rhwng fanylion y person rydych chi wedi'i ddewis fel eich dirprwy chi.

Am faint hoffech chi gael pleidlais drwy ddirprwy?


Nawr, llenwch yr adran 'Am faint yr hoffech gael pleidlais drwy ddirprwy'.

Bydd angen i chi ddweud am faint hoffech chi bleidleisio drwy ddirprwy.

Gallwch chi hefyd wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod amhenodol. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n pleidleisio drwy ddirprwy nes eich bod yn dweud nad ydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy.

Gallwch chi ddewis gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod penodol. Er enghraifft, gallech chi ddweud eich bod am bleidleisio drwy ddirprwy rhwng 2019 a 2023 yn unig.

Gallwch chi bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer etholiad penodol. Bydd angen i chi roi dyddiad yr etholiad.





Pam rydych chi am bleidleisio drwy ddirprwy?

Os hoffech chi bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer pob etholiad yn y dyfodol, bydd angen i chi gysylltu â'r tîm gwasanaethau etholiadol yn eich awdurdod lleol i ofyn am ffurflen gais i bleidleisio drwy ddirprwy parhaol.

Ar y ffurflen, bydd angen i chi nodi pam eich bod chi am bleidleisio drwy ddirprwy:

- Rydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall
- Rydych chi'n cael y gyfradd uwch o elfen symudedd y taliad annibyniaeth personol
- Mae angen i chi weithio oddi cartref
- Gallwch chi hefyd esbonio pam ddylech chi gael pleidlais drwy ddirprwy, yn eich barn chi.

Efallai y bydd angen i chi gael rhywun i gadarnhau eich esboniad chi hefyd.

Gall y bobl ganlynol ategu eich cais:



- Meddyg, deintydd, fferyllydd neu nyrs
- Gweithiwr cymdeithasol
- Rheolwr cartref gofal preswyl.

Os hoffech chi bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer un etholiad yn unig, nid oes angen i chi gael rhywun fel meddyg neu nyrs i ategu eich cais. Bydd angen i chi roi'r rheswm pam na allwch chi fynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.



Angen help?

Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy ddirprwy ar gael ar wefan Mencap:

**[www.mencap.org.uk/get-involved/
campaigning/guides-voting](http://www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting)**

Os byddwch chi'n cael unrhyw anhawster neu os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau, gallwch ffonio tîm Mencap ar **0207 696 6009**.

5

Pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Mae'r adran yma yn esbonio sut i
bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio

Mae'r adran yma yn esbonio sut i **bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio**.

Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio ar gael ar wefan Mencap:

www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting

Pan fyddwch chi wedi cofrestru i bleidleisio, gallwch chi bleidleisio'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio.

Cyn etholiad, bydd cerdyn pleidleisio yn cael ei anfon atoch chi.

Bydd y cerdyn yma yn dweud wrthy'ch chi ble mae eich gorsaf bleidleisio agosaf a ble mae angen i chi fynd i bleidleisio.

Yn aml, mae eglwysi, canolfannau cymunedol ac ysgolion yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio ond gallan nhw fod mewn pob math o leoedd gwahanol.

Mae gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng **7am a 10pm**.

Gall fod yn ddefnyddiol i chi fynd â'ch cerdyn pleidleisio gyda chi i bleidleisio.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd gorsaf bleidleisio, bydd angen i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad.



Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i chi fynd â'r math cywir o brawf adnabod â llun arno gyda chi i'r orsaf bleidleisio. Gall hyn gynnwys:

- Trwydded yrru'r DU, Iwerddon neu AEE (y rhan ffotograffig) (gallwch chi roi trwydded dros dro)
- Pasbort y DU, Iwerddon neu'r UE (gallwch chi ddim defnyddio pasbortau'r UE ar gyfer etholiadau Senedd y DU)
- Cerdyn Adnabod Etholiadol
- SmartPass Translink i Bobl Hŷn
- SmartPass Translink i Bobl dros 60 oed
- SmartPass Translink i Bobl sy'n Anabl oherwydd Rhyfel
- SmartPass Translink i Bobl Ddall

Nid oes angen i'ch prawf adnabod fod yn un diweddar. Mae hyn yn golygu y gallwch chi ei ddefnyddio hyd yn oed os yw wedi dyddio.

Nid oes unrhyw brawf adnabod ffotograffig arall yn cael ei dderbyn yn yr orsaf bleidleisio.

Os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud pan fyddwch chi'n cyrraedd yr orsaf bleidleisio, gofynnwch i'r staff yno – maen nhw yno i'ch helpu.


Gallwch chi hefyd ofyn i rywun fynd gyda chi i'r orsaf bleidleisio i'ch helpu chi. Er enghraifft, aelod o'r teulu sydd dros 18 oed neu weithiwr cymorth sydd hefyd yn gallu pleidleisio yn yr un etholiad â chi. **Gallan nhw eich helpu chi i lenwi eich papur pleidleisio hefyd.**

Os nad oes unrhyw un gyda chi a bod angen help arnoch chi i lenwi eich papur pleidleisio, gall y Swyddog Llywyddu eich helpu chi. Y Swyddog Llywyddu yw'r person sy'n gyfrifol am yr orsaf bleidleisio.

Mae gan unrhyw un sydd wedi cofrestru i bleidleisio yr hawl i bleidleisio.



Gwybodaeth gyswllt
e-bost: campaigns@mencap.org.uk
ffôn: 0207 696 6009



Yn yr orsaf bleidleisio, byddwch yn cael un papur pleidleisio. Darn o bapur yw hwn gydag enwau'r ymgeiswyr arno. Rydych chi'n marcio'r papur pleidleisio drwy roi 'X' wrth ymyl enw'r person rydych chi am iddo eich cynrychioli chi.



Mae rhagor o wybodaeth am bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio ar gael ar wefan Mencap:

**[www.mencap.org.uk/get-involved/
campaigning/guides-voting](http://www.mencap.org.uk/get-involved/campaigning/guides-voting)**

Os byddwch chi'n cael anhawster cofrestru i bleidleisio neu os bydd angen help arnoch chi, gallwch ffonio tîm Mencap ar **0207 696 6009**.

6

Dyddiadau pwysig

Mae'r adran yma yn nodi'r dyddiadau pwysig sydd angen i chi eu cofio ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019

Dydd Iau

12 Rhagfyr
Diwrnod yr
Etholiad!

Dyddiadau pwysig ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol

Efallai hoffech chi roi rhai o'r dyddiadau pwysig yma yn eich dyddiadur neu galendr.

Diwrnod yr Etholiad

Diwrnod yr Etholiad Cyffredinol yw **dydd Iau 12 Rhagfyr**. Gallwch chi bleidleisio yn eich gorsaf bleidleisio rhwng 7am a 10pm.

Tachwedd

26

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio

Os ydych chi am bleidleisio yn yr Etholiad Cyffredinol, y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw canol nos **ddydd Mawrth 26 Tachwedd 2019**.

Tachwedd

26

Y dyddiad cau ar gyfer pleidleisiau post

Os hoffech chi bleidleisio drwy'r post, mae'n rhaid i chi anfon eich cais erbyn **5pm, ddydd Iau 26 Tachwedd 2019**.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen i chi anfon eich cais i bleidleisio drwy'r post erbyn **5pm ar 21 Tachwedd**.

Rhagfyr

4

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy

Os hoffech chi bleidleisio drwy ddirprwy, mae'n rhaid i chi anfon eich cais erbyn **5pm, ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2019**.

Os ydych chi'n byw yng Ngogledd Iwerddon, y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy yw **5pm ar 21 Tachwedd**.

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: campaigns@ Mencap.org.uk
ffôn: 0207 696 6009

7

Termau sy'n cael eu defnyddio yn y canllaw yma

Mae'r adran yma yn esbonio rhai geiriau defnyddiol fel
cynghorydd, blwch pleidleisio, gorsaf bleidleisio ac ati,
sy'n cael eu defnyddio yn y canllaw yma.




Pleidiau Gwleidyddol

Ystyr **plaid wleidyddol** yw grŵp o bobl sy'n meddwl y dylai'r wlad gael ei rhedeg mewn ffordd benodol.

Mae **gwleidyddion** yn aelodau o bleidiau gwleidyddol fel arfer. Mae yna hefyd ymgeiswyr nad ydyn nhw'n aelodau o bleidiau gwleidyddol.

Aelod Seneddol

Gwleidyddion sy'n cael eu hethol i gynrychioli eich ardal chi yn Nhŷ'r Cyffredin yw Aelodau Seneddol. Maen nhw'n helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y wlad i gyd.



Cofrestr Etholwyr

Mae'r gofrestr etholwyr yn rhestru pawb sy'n gallu **pleidleisio** mewn **etholiadau**. Mae angen i chi fod ar y gofrestr etholwyr er mwyn gallu pleidleisio.

Pleidleisio

Ystyr pleidleisio yw eich bod chi a phobl eraill yn dewis pwy fydd yn eich cynrychioli chi ar gyngor neu mewn senedd. Ym myd gwleidyddiaeth, mae pleidleisio yn digwydd yn ystod etholiad. Mae pleidleisio yn bwysig iawn. Mae'n un o'r ffyrdd gorau o wneud yn siŵr bod y bobl fwyaf pwysig yn y wlad yn clywed eich llais.

Gorsaf bleidleisio

Gorsaf bleidleisio yw'r man lle rydych chi'n mynd i **bleidleisio**. Yn aml, mae eglwysi, canolfannau cymunedol ac ysgolion yn cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio ond gallan nhw fod mewn pob math o leoedd gwahanol. Bydd eich gorsaf bleidleisio chi yn cael ei nodi ar eich cerdyn pleidleisio.



Swyddog Llywyddu

Y Swyddog Llywyddu yw'r person sy'n gyfrifol am orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad. Mae'n gwneud yn siŵr bod yr etholiad yn rhedeg yn esmwyth ac ar gael i roi help llaw os bydd gennych chi gwestiwn neu os hoffech chi gael help i bleidleisio.




Blwch Pleidleisio

Y **blwch pleidleisio** yw'r man lle rydych chi'n rhoi eich papur pleidleisio pan fyddwch chi'n pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio. Mae'n flwch mawr sy'n cael ei ddefnyddio i gadw'r holl bleidleisiau yn ddiogel nes eu bod yn barod i gael eu cyfrif.

Etholiad Cyffredinol y DU

Mae Etholiad Cyffredinol yn penderfynu pa blaid neu bleidiau gwleidyddol fydd yn rhedeg y wlad. Fel arfer, y blaid wleidyddol sydd â'r nifer mwyaf o ASau etholedig sy'n ennill yr etholiad. Nhw fydd yn ffurfio'r llywodraeth fel arfer.



Papur pleidleisio

Mae pawb sy'n pleidleisio yn cael un **papur pleidleisio**. Darn o bapur yw hwn gydag enwau'r ymgeiswyr arno. Rydych chi'n marcio'r papur pleidleisio drwy roi 'X' wrth ymyl enw'r person rydych chi am iddo eich cynrychioli chi.

Ar ôl i'r gorsafoedd gau, mae'r holl bapurau pleidleisio yn cael eu cyfrif ac mae'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi.



Pleidlais bost

Pleidlais bost yw pan fydd rhywun yn cael papur pleidleisio drwy'r post, yn ei lenwi ac yn ei bostio'n ôl. Felly, dydyn nhw ddim yn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio.



Pleidlais drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu eich bod chi'n dewis rhywun arall i bleidleisio drosoch chi. Mae angen i chi lenwi ffurflen i ddewis pwy fydd yn pleidleisio drosoch chi. Gall y person yma fynd i orsaf bleidleisio neu wneud cais am bleidlais bost er mwyn pleidleisio ar eich rhan chi.

Nodiadau

Gwybodaeth gyswllt
e-bost: campaigns@mencap.org.uk
ffôn: 0207 696 6009



Gwybodaeth gyswllt

e-bost: campaigns@mencap.org.uk

ffôn: 0207 696 6009